DENBIGHSHIRE MUSIC CO-OPERATIVE
CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH

# *Gwasanaethau Ychwanegol CCSDd ar gyfer Ysgolion o Fis Medi 2016*

Mae CCSDd yn gweithio'n galed i gynnig llawer mwy na gwasanaeth cerdd teithiol i'n ysgolion.

Rydym yn falch o gyhoeddi y gallwn yn awr gynnig y gwasanaethau ychwanegol canlynol i'n holl ysgolion. Mae'r prisiau fel a nodir neu ar gais i'r swyddfa. Gellir archebu pob gwasanaeth ymlaen llaw o'r swyddfa, neu, mewn achosion brys o gyflenwi adeg salwch, cysylltwch â'r swyddfa ac fe wnawn ein gorau glas i gynorthwyo.

## Cefnogaeth Dosbarth ar gyfer Darpariaeth Cerdd

Mae nifer o'n hyfforddwyr yn athrawon dosbarth dwyieithog cymwysedig. Maent yn gallu cynorthwyo trwy ddarparu arbenigwr cerdd cynradd o fewn eich ysgol ar draws pob Cyfnod Allweddol.

Mae gennym hefyd bedwar cyn-bennaeth cerdd Ysgolion Uwchradd ar ein llyfrau sy'n gallu cynorthwyo fel athrawon llanw, cyflenwol, gyda chefnogaeth ychwanegol ar gyfer darpariaeth TGAU / Lefel 'A' neu unrhyw waith cyflenwol ychwanegol oherwydd salwch neu absenoldeb.

Gallwn hefyd ddarparu cymorth gyda sain glust a theori ar draws pob lefel ond yn arbennig ar gyfer disgyblion TGAU a Lefel 'A'.

Prynir y gwasanaethau hyn fesul awr – Cost £35 yr awr.

## 'Prynu i mewn' fesul awr unrhyw un o'n hyfforddwyr i gefnogi cynhyrchiad neu sioe ysgol

Efallai eich bod angen pianydd ar gyfer perfformiad neu gynhyrchiad, neu wasanaeth ysgol arbennig. Mae llawer o'n ysgolion heb athro sy'n gallu chwarae'r piano bellach a gallwn gynorthwyo gyda hyn. Mae gennym hefyd ddetholiad o hyfforddwyr lleisiol arbenigol a all gynorthwyo eich côr ysgol.

Prynir y gwasanaethau hyn fesul awr – Cost £35 yr awr.

## 'Prynu i mewn' fesul awr ar gyfer paratoadau Eisteddfod Yr Urdd / Cystadlaethau Cerdd eraill

Gallwn ddarparu cefnogaeth arbenigol Cerdd Dant a Chorau er mwyn paratoi eich disgyblion a'ch ysgol ar gyfer unrhyw gystadleuaeth. Gallwn hefyd ddarparu telynor ar gais i gynorthwyo'r paratoadau.

Prynir y gwasanaethau hyn fesul awr – Cost £35 yr awr.

DENBIGHSHIRE MUSIC CO-OPERATIVE
CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH

## Gweithdy Arweiniad i Gyfansoddi gydag Ynyr Llwyd

Rydym yn gallu cynnig pecyn arbennig i'ch ysgol o weithdai am gyfansoddi. Yn ddelfrydol ar gyfer disgyblion TGAU a Lefel 'A', ond hefyd prosiectau rhyfeddol mewn ysgolion cynradd i annog eich disgyblion i gyfansoddi a chreu gyda'n hyfforddwr arbenigol, Ynyr Llwyd.

Gall y prosiect yma fod yn hanner diwrnod, diwrnod cyfan neu brosiect estynedig wedi'i deilwra ar gyfer anghenion eich disgyblion.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd.

## Hyfforddiant Perfformio DJ

Cwrs arbenigol fel DJ y gellir ei ddefnyddio fel elfen perfformio TGAU Cerdd. Byddai hwn yn ddelfrydol i ddenu myfyrwyr sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth at TGAU Cerdd er nad ydynt yn chwarae offeryn yn safonol.

Gall hyfforddiant Technegau DJ godi safon myfyriwr yn gyflym o ddechreuwr i DJ medrus mewn cyfnod cymharol fyr tra yn cynnal safon uchel o berfformio cerdd. Gan ddefnyddio cymysgedd o TG, offer digidol cyfoes DJ, ynghyd â dewis personol y myfyriwr o'r math o gerddoriaeth , bydd y myfyriwr yn cael teimlad o hunaniaeth yn ogystal â sicrhau'r ymdrech orau o ran cyrhaeddiad.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd, gyda phob offer yn cael ei ddarparu i'r ysgolion sy'n dewis y gwasanaeth hwn.

## Y Celfyddydau Perfformio

Mae CCSDd yn falch iawn o gydweithio gyda'r hyfforddwr profiadol, dwyieithog, Claire Tranmer.

Mae gan Claire dros 25 mlynedd o brofiad yn cyflwyno gweithdai celfyddydau perfformio mewn ysgolion. Mae ganddi dystysgrif ôl-radd mewn addysgu a gall weithio o safon Sylfaen hyd Lefel 'A'.

Gall Claire ddarparu gweithdai addas at anghenion eich myfyrwyr a gallai sesiynau gynnwys y canlynol, neu gyfuniad o'r canlynol naill ai fel cyfnodau unigol neu waith am gyfnod hwy -

*Drama, Dawns, Theatr Cerdd ac Archwilio Cerdd trwy Ddawns.*

Gall Claire alluogi'ch myfyrwyr i archwilio themâu a thestunau pwnc trwy'r celfyddydau perfformio. Camu o'r llyfr i'r llwyfan trwy ddefnyddio byrfyfyrio, Masgiau, Meim: ymwneud â Shakespeare a llawer o dechnegau celf dramatig eraill.

Prynir y gwasanaethau hyn fesul awr - Cost £35 yr awr.

## Therapi Cerdd

Gall CCSDd ddarparu therapydd cerdd ar gyfer ysgolion sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig er mwyn cynorthwyo disgyblion a fyddai'n elwa o hynny. Dyma wasanaeth arbenigol, newydd, gan CCSDd sy'n ddelfrydol ar gyfer gwaith gyda phlant sydd wedi dioddef trawma, colled, profedigaeth a'r plant hynny â diagnosis ADHD neu gyflwr tebyg. Byddai plant gydag anghenion addysgol arbennig neu blant mewn gofal sydd wedi cael profiadau anodd yn elwa'n fawr o'r math yma o therapi un i un.

Trafodaeth Gyfrinachol a Phrisiau ar gais o swyddfa CCSDd.

## Ensemblau CCSDd

Mae gennym amrywiaeth o ensemblau buddugol y gallwch eu llogi ar gyfer cyngerdd, ffair neu gynhyrchiad ysgol. Mae'r ensemblau hyn yn cynnwys band jazz a Seindorf Pres buddugol. Mae gennym hefyd dîm ffanffer arbennig y gallwch eu llogi ar gyfer achlysuron arbennig.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd.

## Peirianwyr Sain a Recordio – Wyn Pearson a Mathew Roberts.

Gall CCSDd gynnig pecyn recordio a chynhyrchu CD yr ysgol neu recordiad o berfformiad arbennig. Byddwn yn sicrhau fod pob deddf sy'n ymwneud â hyn yn cael ei pharchu a'ch cynorthwyo drwy'r broses o'r dechrau i'r cynnyrch terfynol.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd

Gallwn hefyd gynnig i'n ysgolion uwchradd y daw CCSDd draw i recordio'r agwedd berfformio o berfformiad TGAU / Lefel 'A' eich disgyblion. Arferid darparu'r gwasanaeth hwn gan y Bwrdd Arholi, ond ni fydd hyn yn digwydd o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

Prynir y gwasanaeth hwn fesul awr - Cost £35 yr awr.

## Gweithdai 'Cerdd i Bawb' ar gyfer dosbarth cyfan neu grŵp bychan.

Gall CCSDd ddarparu offerynnau ar gyfer dosbarth neu grŵp bychan er mwyn gweithio ar hyfforddiant dosbarth cyfan – gall hyn fod am ddiwrnod neu brynhawn neu am gyfnod estynedig gyda pherfformiad ar y diwedd. Dyma ddull hwyliog o gyflwyno cerddoriaeth i'r dosbarth a gellir ei ddefnyddio mewn perthynas â gwaith llythrennedd a rhifedd. Yn ddelfrydol ar gyfer Blynyddoedd 4, 5, 6 a 7.

Mae hyn ar gael gyda'r offerynnau canlynol y bydd CCSDd yn eu darparu i chi -

*Recorders, 'P' Bones, 'Doods'* a *'Toots'* a gweithdai Drymio/Samba Africanaidd.

Bydd CCSDd yn darparu arweinydd gweithdy a hyfforddwr cefnogi yn dibynnu ar faint y dosbarth, oedran a gallu.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd.

## Prosiectau Cerdd arbenigol a Gweithdai

Mae gennym ychydig o weithdai cerdd gwahanol y gall eich ysgol eu prynu o fis Medi 2016.

Mae rhain yn ddelfrydol ar gyfer sesiynau bore neu brynhawn ond gellid eu hymestyn yn ddiwrnod cyfan o waith gyda pherfformiad gyda'r nos.  Mae rhain yn cynnwys –

Denbighshire Music Co-operative
Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych

'Cerdd rwy'n tybio'

Daw'r offerynnwr Aml-Bres John Powell a'r Cerddor Taro talentog Jo Pearson at ei gilydd i archwilio'r byd cerdd fel y bu Livingstone a Stanley yn archwilio'r cyfandir tywyll.

Bydd John a Jo yn cyfarfod yng nghanol y jyngl i archwilio'r byd cerdd, gan deithio o Brestatyn i'r Unol Daleithiau, jyngl yr Affrig, heibio gêm bêl-droed, ymuno â band samba yn Ne America a gorffen y daith mewn glyn yn Yr Alban.

Ceir llawer o Hanes, Cerdd, rhyngweithio a hwyl ar hyd y daith. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel prosiect pontio ym Mlwyddyn 6. Yn ddelfrydol ar gyfer blynyddoedd Cynradd 3 hyd 6 a gellir ei addasu hefyd ar gyfer ysgolion AAA.

Mae gennym amrywiaeth o brosiectau eraill y gellid eu teilwra ar gyfer unrhyw thema – rydym eisoes wedi ymdrin â Bwyta'n Iach, Ein Tref, O Dan y Môr a Chestyll!

Pris ar gais o swyddfa CCSDd.

## Prosiectau Ysgolion Cynradd cysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Gallwn deilwra unrhyw brosiect ar gyfer eich ysgol a'ch rhaglen astudio bresennol.

Gall ein hyfforddwyr gynhyrchu cân gyda'ch dosbarth – wedi'i chynllunio, ei pharatoi, ei chyfansoddi a'i pherfformio gan y disgyblion eu hunain er mwyn defnyddio eu sgiliau yn greadigol. Datblygwch eu llythrennedd trwy gynllunio deunydd hyrwyddo eu cynnyrch – Recordio'r gân, efallai, ac yna mynd â hi i farchnad ddychmygol neu hyd yn oed un go iawn – Prisio'r cynnyrch er mwyn defnyddio sgiliau rhifedd mewn modd hwyliog.

Mae'r holl raglenni hyn yn dod â cherddoriaeth fyw i'r dosbarth a chael pob plentyn i gymryd rhan. Gellir ei addasu ar gyfer pob Cyfnod Allweddol a phob anghenion.

Pris ar gais o swyddfa CCSDd.

## Gwersi i oedolion ar gyfer athrawon fel rhan o DPP / adeiladu tîm!

Mae rhai o'n ysgolion yn dewis prynu gwersi ar gyfer yr athrawon eu hunain! Dyna ysbrydoliaeth i ddisgyblion fyddai gweld eu hathrawon yn dysgu hefyd gyda nhw – gall llawer o'n hyfforddwyr aros ar ôl oriau ysgol i gynnig y gwasanaeth hwn neu mae gennym le cyfyngedig yn ein ystafell addysgu yn ein swyddfa.

Pam na wnewch chi ddechrau côr neu fand y staff ar gyfer y gwasanaeth boreol neu achlysur arbennig? Rhowch gynnig arni!

Pris fesul awr yn £35 yr awr. (Darperir gorchudd clustiau!)